**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**24ain Medi 2007**

**Polisi Drafft - Rheoli Parhad Busnes**

**Adroddiad gan Paul Claydon,**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
**(Cyflwyno'r Gwasanaethau)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I alluogi aelodau i ystyried cynnwys y polisi drafft sydd ynghlwm, er eu gwybodaeth ac i'w gadarnhau.

## Cyflwyniad

**2.** Fe roddodd yr Awdurdod, yn unol â dogfen gyfarwyddyd Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod Tân ac Achub Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cymru, Gwlad Fwy Diogel', ymrwymiad yn ei Gynllun Lleihau Risg 2007 – 2008 y byddai cynlluniau parhad busnes yn cael eu datblygu a'u rhoi yn eu lle. Mae'r ddogfen sydd ynghlwm, yn ganlyniad gwaith sydd wedi digwydd i gwrdd â'r ymrwymiad hwnnw ac mae'n atgyfnerthu ymrwymiad yr Awdurdod i wella cadernid wrth Gyflwyno'r Gwasanaethau.

## Gwybodaeth

**3.** Gellir diffinio Parhad Busnes fel gallu strategol a thactegol sefydliad i gynllunio ar gyfer, ac i ymateb i sefyllfaoedd ac amhariad busnes, er mwyn parhau gweithrediadau busnes ar lefel ragddiffiniedig dderbyniol.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**4.** Mae'r polisi drafft yn gosod allan y trefniadau sydd mewn lle er mwyn sicrhau fod y swyddogaethau craidd yn cael eu hamddiffyn. Mae hyn wedi ei fanylu yn Adran 7 o'r ddogfen.

**5.** Mae'r Dadansoddiad Effaith Busnes, gyfeirir ato yn Adran 9, yn berthnasol i'r broses asesu risg sydd wedi ei gynnal eisoes, sy'n adnabod y prif fygythiadau, mesurau rheoli presennol a mesurau sydd angen eu rhoi yn eu lle er mwyn lleihau neu ddileu y risg.

**6.** Mae'r drafft hefyd yn cynnwys trefniadau y mae modd eu rhoi mewn lle yn ystod digwyddiad o absenoldeb sylweddol o staff, ynghyd â'r gweithrediadau hanfodol sydd angen eu gwneud gan rai o swyddogaethau allweddol y Gwasanaeth, os fydd rhaid galw ar y polisi (Atodiad 1).

**7.** Mae Dadansoddiad Effaith Busnes, gyfeirir ato yn Adran 9, wedi cael ei gwblhau eisoes ac yn ffurfio'r sail mae'r polisi wedi cael ei gynhyrchu. Mae'r dadansoddiad hwn yn galluogi adnabod a blaenoriaethu risgiau a bygythiadau. Bwriedir dosbarthu'r wybodaeth yma i'r Penaethiaid Adran perthnasol er mwyn mynd i'r afael â risgiau neu fygythiadau penodol. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i hysbysu cynllunio busnes adrannau ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw.

**8.** Mae nodweddion pwysig arall o'r polisi drafft yn cynnwys trefniadau i ymarfer ac adolygu cylchrediad y cynllun.

**Argymhelliad**

**9.** Fod aelodau yn cymeradwyo y polisi drafft sydd ynghlwm a'i atodiadau cysylltiedig.